



Lle i enaid gael llonydd  
Sustainable Landscapes, Breathing Spaces



wye valley dyffryn gwy  
Areas of Outstanding Natural Beauty  
Ardal o Harddodiad Naturiol Ewriadol

peintio'r byd yn wyrrd

go



# arweiniad

## Y Darlun Ehangach

Mae llawer o dirweddau mwyaf godidog Cymru i'w gweld o fewn y tri Pharc Cenedlaethol a'r pump Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Gyda'i gilydd mae'r ardaloedd hyn yn ymestyn dros chwarter o dir Cymru ac yn cyfrannu'n sylwedol tuag at gynaliadwyedd y genedl.

Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Chydbwyllogorau AHNE yn llwyr gyfrifol am reoli'r ardaloedd a warchodir ganddynt. Mae Tirweddau Byw a Mannau Agored yn rhoi darlun o'r amrywiaeth eang o waith a gyflawnir ganddynt ac sydd yn cyfrannu tuag at amcanion strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae pob ardal a warchodir wedi ymgymryd ag un thema - neu themâu yn achos y Parciau Cenedlaethol - ac maent fwy neu lai yn cynnwys y cyfan o'r tirweddau gwarchodedig. Gellir mesur llwyddiant yn nhermau cynaliadwyedd, lles ac economi, ac yn ogystal âr hyn gellir ei werthfawrogi trwy gyfrwng y tirweddau godidog a ddarlunnir yn y tudalennau hyn. Tirweddau ydynt lle mae cymunedau'n byw ac yn gweithio a lle mae ymwelwyr yn dod ac yn mwynhau.

## Tirluniau Cynaliadwy

Effaith grymoedd naturiol a dylanwad dynolryw sy'n byw oddi arnynt sy'n ffurio tirweddau. Mae pobl wedi gadael eu marc ac yn eu tro y mae'r tirweddau wedi dylanwadu ar ddiwylliant a threftadaeth yng Nghymru. Bydd rheoli'r tirweddau yn gynaliadwy yn sicrhau fod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu eu mwynhau a chael budd o berthynas sy'n debyg.

## Mannau Agored


Mae'r ardaloedd a warchodir yng Nghymru yn fannau agored sydd yn rhoi lle i filiynau o bobl brofi, mwynhau a manteisio ar yr amgylchedd naturiol. Mae nifer uchel y ddefnyddwyr - yn breswylwyr ac ymwelwyr - yn creu her, ond maent hefyd yn cynnig cyfleoedd i gynyddu a gwella ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r ardaloedd hyn a warchodir gennym.

# introduction

## The Bigger Picture

Many of Wales' most spectacular landscapes are found within Wales' three National Parks and five Areas of Outstanding Natural Beauty (AONBs). In total these areas cover a quarter of Wales and they contribute to national sustainability.

The National Park Authorities and AONB Joint Advisory Committees are responsible for the overall management of the protected areas. Sustainable Landscapes, Breathing Spaces provides a Wales-wide snapshot of the wide range of work they undertake that contributes to the strategic objectives of the Welsh Assembly Government. Each protected area has addressed a specific theme, or in the case of National Parks - themes, and in most cases these apply across all protected landscapes. Success can be measured in terms of sustainability, well-being and in economic terms, but it can also be appreciated through the spectacular landscapes on show within these pages. They are landscapes in which communities live and work, and visitors experience and enjoy.



Parciau Cenedlaethol Cymru a  
Cymdeithas Genedlaethol AHNE  
The National Parks & AONB's of Wales

- AHNE Ynys Môn  
Anglesey AONB
- APC Bannau Brycheiniog  
Brecon Beacons NPA
- AHNE Bryniau Clwyd  
Clwydian AONB
- AHNE Gŵyr  
Gower AONB
- AHNE Llŷn  
Llŷn AONB
- APC Arfordir Penfro  
Pembrokeshire Coast NPA
- APC Eryri  
Snowdonia NPA
- AHNE Dyffryn Gwy  
Wye Valley AONB


## Sustainable Landscapes

Landscapes are the product of natural forces acting on them and the hand of humans living off them. Through agriculture people have left their mark and in return, landscapes have shaped the culture and heritage of Wales. The sustainable management of landscapes will ensure that future generations are able to enjoy and benefit from a similar relationship.

## Breathing Spaces

The protected areas of Wales are breathing spaces that provide millions of people with the room to experience, enjoy and benefit from the natural environment. Large numbers of users - residents and visitors - create challenges but they also provide opportunities to increase and enhance awareness, understanding and appreciation of our protected areas.

dewch at eich gilydd





Gwyl Gerdded  
Walking Festival

Crwydro Arfordir  
Coasteering

Codi Waliau  
Walling



## Iechyd a Lles

Mae'r Parciau Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn cyfrannu tuag at iechyd a lles Cymru; yn cynnig tawelwch a llonyddwch ar yr un llaw a heriau mwy corfforol ar y llaw arall; a'r cyfan yn erbyn cefndir o dirluniau godidog.

Mae ansawdd arbennig AHNE Ynys Môn yn addas ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau, yn amrywio o'r anturiaethau mwyaf egniol i gerdded yn hamddenol ar hyd llwybr yr arfordir.

Mae cyfleoedd hefyd ar gael ar gyfer gwirfoddoli – s'y'n fanteisiol i iechyd a lles y gwirfoddolwr ac ar yr un pryd yn gwella'r amgylchedd yn gyffredinol.



## Health and Well-being

The National Parks and AONBs contribute to the health and well-being of Wales; offering peace and tranquillity on the one hand and more physical challenges on the other; all set within stunning landscapes.


The special qualities of Anglesey AONB suit a wide range of activities. These range from the exhilarating, such as coasteering and surfing to a tranquil walk along the coast path.

Volunteer opportunities are also available that benefit the health and well-being of the volunteer while improving the wider environment.



b e t h   y w   y   t e i m l a d ?





Bryn Alyn  
AHNE Bryniau Clwyd - Clwydian Range AONB



Beicio Mynydd  
Mountain Biking

Cerdded Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa  
Walking the Offa's Dyke National Trail

Rhostir  
Moorland Landscape



AHNE Bryniau Clwyd  
Clwydian Range AONB



## Mynediad

Arafu cam neu gyflymu curiad y galon. Mae ardaloedd a warchodir yn cynnwys tirweddau llawn antur a diwylliant a threftadaeth gyfoethog.

Cadwyn o fryniau 35km o hyd yw Bryniau Clwyd ac maent i'w gweld orau o Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, sydd yn eich arwain trwy ddyffrynnoedd coedig a serth, cribau a rhostir a cheyrydd mynyddig o Oes yr Haearn. Mae'r cyfuniad hwn yn creu tirwedd arbennig iawn.

Yn yr ANHE, mae nifer fawr o'r ardaloedd tir mynediad ar ucheldiroedd Bryniau Clwyd. Hefyd mae nifer ar y palmentydd calch yn cynnwys Bryn Alyn, Moel Hiraddug, Graig Fawr a Mynydd Prestatyn.

## Access

Slow the pace or quicken the pulse. Protected areas are landscapes of adventure and rich cultural heritage.

The Clwydian Range forms a 35km chain of hills and is best viewed from the Offa's Dyke National Trail, guiding you through steep wooded valleys, moorland ridges and Iron Age hillforts. Together they create a special landscape.

The main areas of access land in the AONB are along the top of the Clwydian Ridge. There are also several sections of limestone pavement including Bryn Alyn, Moel Hiraddug, Graig Fawr and Prestatyn Hillside.



AHNE Bryniau Clwyd  
Clwydian Range AONB

p a i d   â   b o d   o f n



play harder



Cerdded yn Rhossili  
Walking in Rhossili

Bws Gŵyr  
Gower Explorer

Bae'r tri Clogwyn  
Three Cliffs Bay



## Twristiaeth Cynaliadwy

Mae'r ardaloedd a warchodir yng Nghymru yn denu miloedd o ymwelwyr sydd yn eu tro yn cyfrannu tuag at yr economi leol a chenedlaethol.

Mae'r AHNE gyntaf a ddynodwyd, sef Penrhyn Gŵyr, yn draddodiadol wedi bod yn gyrchfan gwyliau boblogaidd ar gyfer trigolion ardaloedd diwydiannol De Cymru. Gan fod Abertawe mor agos, mae o fewn cyrraedd hwylus i dros ¼ miliwn o bobl ac mae'r traethau anhygoel, y creigiau a'r mynyddoedd yn denu dros bedwar miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn. Mae'n berffaith ar gyfer brigdonni, cerdded, beicio a marchogaeth!

Mae gwasanaeth bws y Gower Explorer yn cyfrannu tuag at dwristiaeth cynaliadwy trwy ddarparu gwasanaeth gydol y flwyddyn, yn cysylltu canol Abertawe gyda'r traethau a'r pentrefi o gwmpas Penrhyn Gŵyr.

## Sustainable Tourism

Wales' protected areas attract tens of millions of visitors that contribute to the local and national economy.

The first designated AONB, Gower has traditionally been a popular holiday destination for industrial South Wales. Swansea is close by; over ¼ million people are within a short bus ride. Spectacular beaches, cliffs and hills bring over 4 million visitors annually. Perfect for surfing, walking, cycling and horse riding!

The Gower Explorer bus service contributes to sustainable tourism – providing a year round service, linking the centre of Swansea with beaches and villages around Gower.



rwy'n gweld o bell





Gwirfoddolwyr Siop Llithfaen  
Llithfaen Shop Volunteers

Ras Gŵn Defaid Y Rhiw  
Rhiw Sheepdog Trials

Gŵyl Jas Abersoch  
Abersoch Jazz Festival



## Cronfa Datblygu Cynaliadwy

Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC), neu CAE fel yr adnabyddir hi yn Eryri, yn hyrwyddo Cynaliadwyedd o fewn ardalau a warchodir. Defnyddir Parciau Cenedlaethol ac Ardalau a Harddwch Naturiol Eithriadol fel meysydd arbrofi ar gyfer mentrau arloesol sy'n cynnwys y gwaith o ddiogelu a gwella harddwch naturiol, hunaniaeth leol, bywyd gwylt, tirwedd, defnydd tir a chymunedau.

Mae CDC yn Llŷn wedi cefnogi cymunedau lleol o fewn yr AHNE trwy hyrwyddo prosiectau unigryw, mentrus a chyffrous. O siop bentref lle ceir gwirfoddolwyr yn gwerthu cynyrch lleol i greu cynefinoedd i felynn yr eithin, mae'r prosiectau hyn wedi cael effaith positif ar ein amgylchedd, ein cymunedau, ein economi ac - yn bwysig iawn - ein dyfodol.

## Sustainable Development Fund


The Sustainable Development Fund (SDF), known as CAE in Snowdonia, promotes sustainability within protected areas. National parks and AONBs become test-beds for innovation while natural beauty, local distinctiveness, wildlife, landscape, land-use and community are conserved and improved.

The SDF in Llŷn has supported local communities within the AONB. Unique, innovative and exciting projects are supported. From a village shop run by volunteers selling local produce to the creation of Yellowhammer habitat, these projects have had a positive effect on our environment, community, economy and, importantly, our future.



o b l e g e s t t i ' r d d a w n ?





look further



Y Cymin, Mynwy  
The Kymin, Monmouth

Beicio'r Llwybr Hebog  
Cycling, Peregrine Path

Castell Cas Gwent  
Chepstow Castle

wye valley dyffryn gwy  
Area of Outstanding Natural Beauty  
Ardal o Harddwy Naturol Eithriadol



## Treftadaeth a Diwylliant

Mae treftadaeth a diwylliant arbennig bob amser yn gymorth i ddiffinio ardal a warchodir ac i gyfrannu tuag at wella ansawdd bywyd.

Yn AHNE Dyffryn Gwy caiff dros £2.8 miliwn ei fuddsoddi yn y cynllun 'Dros Dyffryn Gwy', sef cynllun tair blynedd a noddir gan y Loteri Treftadaeth, mewn partneriaeth gyda chyngorau, grwpiau a sefydliadau lleol. Mae teithiau afonydd, gweledfeydd a safleoedd diwydiannol hynafol wedi arwain at waith ym meysydd cadwraeth, gwella mynediad, addysg a dehongli mewn safleoedd amlwg ledled Dyffryn Gwy. Trefnwyd rhaglen sy'n cynnwys dros 50 o weithgareddau, darlithoedd, teithiau a gweithdai i ddathlu twristiaeth hanesyddol, y Mudiad Darluniadol a threftadaeth diwydiannol a chelfyddydol.

## Heritage and Culture

Distinctive heritage and culture helps to define a protected area and contributes to the wider quality of life.

In the Wye Valley AONB over £2.8 million is being invested in 'Overlooking the Wye', a Heritage Lottery Funded three year scheme in partnership with local councils, community groups and organisations. River connections, viewpoints, hillforts and hidden industry themes have enabled conservation work, access improvement, education and interpretation at iconic sites throughout the Wye Valley. A programme of over 50 events, lectures, walks and workshops will celebrate historic tourism, the Picturesque movement and a strong industrial and artistic heritage in one of the finest lowland river landscapes.

wye valley dyffryn gwy  
Area of Outstanding Natural Beauty  
Ardal o Harddwy Naturol Eithriadol

un Ilymaid arall...





drink deeper

#### Cribyn

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog  
Brecon Beacons National Park



Castell y Fenni  
Abergavenny Castle

Tylluan Wen  
Barn Owl

Llyn Syfaddon a Eglwys Sant Gastyn  
St Gastyn's Church and Llangorse Lake



#### Cynllunio

Cydwylsedd yw'r gair pwysig o ran cynllunio mewn Parciau Cenedlaethol. Mae'n rhaid i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gwrrdd ag anghenion y rhai sy'n byw, yn ymweld ac yn gweithio ynddynt, ac ar yr un pryd ddiogelu'r ardaloedd hyn ar gyfer y cenedlaethau sydd i ddod. Os am sicrhau datblygu cynaliadwy a blaengar mae'n hanfodol sicrhau gweledigaeth, blaengynllun a chydweithrediad.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi gwella ei wasanaeth cynllunio yn fawr dros y ddwy flynedd diwethaf trwy gyflwyno Ymarfer Gorau ym maes dilysu. Mae'n cymeradwyo rhagor na 80% o'r ceisiadau a ddaw i law, ac mae ffigurau chwarterol diweddar yn dangos bod 100% o geisiadau gan ddeiliaid wedi derbyn penderfyniad o fewn y cyfnod statudol o wyth wythnos. O safbwyt perfformiad, golyga hyn ei fod yn un o'r goreuon ymhlied Awdurdodau Cynllunio Cymru.

#### Planning

Planning in National Parks is a balancing act. National Park Authorities have to meet the needs of those who live, visit and work here now, and protect the areas for future generations. Innovative sustainable development requires vision, planning and cooperation.

Brecon Beacons National Park Authority has greatly improved its planning service in the last two years; introducing Validation Best Practice. It approves more than 80% of the applications it receives. Recent quarterly figures show 100% of householder applications were determined within the statutory eight week period, putting them among the best performing Planning Authorities in Wales.



s a f a r d y d r a e d





Sgwd yr Eira  
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog  
Brecon Beacons National Park

b e s t r o n g e r



Pen y Fan  
Pen y Fan

Cynllun Heidro, Tal-y-Bont ar Wysg  
Talybont-on-Usk Hydro Scheme

Enillwyr Gwobr Werdd  
Green Award Winners



## Ymrwymiad y Gymuned

Yn aml mae gan gymunedau awgrymiadau a mewnbwn gwerthfawr ar faterion lleol. Trwy gadw mewn cysylltiad rheolaidd mae'n bosibl derbyn gwybodaeth werthfawr gan aelodau'r gymuned.

'Gweledigaeth trwy ymrwymiad y gymuned' – dyna ddywedwyd am y prosiect Dyffrynnoedd Gwyrdd – prosiect a enillodd wobr arbennig. Mae'r model busnes wedi ei ddylunio'n gelfydd fel ei fod yn helpu cymunedau i gynhyrchu eu ynni eu hunain a lleihau allyriadau carbon. Gyda chefnogaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae'r prosiect yn galluogi cymunedau anghysbell i sefydlu cynlluniau trydan dw'r. Mae hefyd yn cynnig cymorth ariannol a chymorth ymarferol i dirfeddianwyr lleol ddatblygu eu systemau eu hunain. Yna caiff yr elw ei fuddsoddi mewn mentrau eraill sydd yn lleihau carbon.

## Community Engagement

Communities often have innovative ideas and solutions to local issues. Their knowledge is tapped through regular engagement.

'Visionaries in community engagement' – that's what the award-winning Green Valleys project has been dubbed. Its ingenious business model is designed to help communities generate their own energy and offset their carbon emissions. Supported by the Brecon Beacons National Park Authority the project enables remote communities to install hydro schemes. It also provides financial and practical assistance for local landowners to develop their own systems. The revenue is then ploughed back into other carbon reducing enterprises.



mor fawr wyt ti





climb higher



Canolfan Astudiaethau Amgylcheddol  
Plas Tan Y Bwlch  
Plas Tan Y Bwlch Environmental Study Centre

Rhwydwaith Bws Sherpa  
Sherpa Bus Network

Canolfan Warden Llyn Tegid  
Llyn Tegid Warden Centre



## Newid Hinsawdd

Yng Nghymru, mae safleoedd a rhywogaethau sensitif o fewn ardaloedd a warchodir ymhli y rhai cyntaf i ddioddef effaith newid hinsawdd. Mae Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cynnig arweiniad ac yn gweithio tuag at leihau allyriadau carbon yn eu hardaloedd.

Yng Nghyfarfod Gwobr Gwobraeth Cymru 2009, enillodd Eryri wobr gyda Chanmoliaeth Uchel a Sir Benfro wobr gyda Chanmoliaeth am eu gwaith clodwiw yn y maes hwn. Yn Eryri mae agwedd Awdurdod cyfan gyda phecyn o fesurau yn cynnwys hyfforddiant, gwybodaeth i'r cyhoedd, prosiectau blaengar a newid yn null yr Awdurdod o weithio wedi arwain at leihad o 21% mewn allyriadau ac mae rhaglen o weithgareddau pellach ar y gweill. Mae'r Awdurdod yn frwd frydig iawn wedi ei ymrwymo ei hun i 10:10.

## Climate Change

Sensitive sites and species within protected areas are amongst the first in Wales to experience climate change. National Parks and AONBs lead by example and are working to reduce their carbon emissions.

Snowdonia was Highly Commended and Pembrokeshire Commended in the Excellence Wales Awards 2009 for their work. In Snowdonia a whole Authority approach of a package of measures embracing training, public information, innovative projects and changing the way the Authority works has seen a drop in emissions of 21% with a programme of further activities planned. The Authority has enthusiastically committed itself to 10:10.



p a i d   â   b o d   o f n





fly further



Adeiladu Llwybrau  
Building Paths

Walio Sych  
Dry Stone Walling

Saer Maen  
Stone Mason



## Datblygu Economaidd

Nid oes raid niweidio asedau amgylcheddol Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol er mwyn gwneud yn fawr o'u gwerth economaidd.

Yn olynnydd i'r hen adeilad ar gopa'r Wyddfa, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi adeiladu Hafod Eryri – adeilad a dderbyniodd ganmoliaeth uchel ac a agorwyd yn 2009 ar gost o £8.3 miliwn. Mae'r effaith ar yr economi leol wedi bod yn syfrdanol gyda chynnydd o 107,000 yn nifer yr ymwelwyr i'r mynydd o fewn y chwe mis cyntaf. Mae'r gwariant o ganlyniad yn yr economi leol yn helpu i greu dyfodol diogel i fusnesau lleol a chynnydd yn nifer y swyddi yn yr ardal.

## Economic Development

The economic value of National Parks and AONBs can be realised without damaging their environmental assets.

Snowdonia National Park Authority replaced the old building on the summit of Snowdon with the highly praised Hafod Eryri which opened in 2009 at a cost of £8.3million. The impact on the local economy has been dramatic with a 107,000 increase in visitor numbers to the mountain in the first six months. The knock on spend in the local economy helps create a secure future for local businesses and an increase in employment in the area.



p w y   a   s a i f   g y d a   m i ?





pause longer

Merlod yn Pori - Grazing Ponies  
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro  
Pembrokeshire Coast National Park



Tylluan Wen  
Barn Owl

Tegeiriannau  
Pyramidal Orchids

Llo Morlo Llwyd  
Grey Seal Pup



Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro  
Pembrokeshire Coast  
National Park



## Bioamrywiaeth

Un o lwyddiannau'r ardaloedd a warchodir yng Nghymru yw'r cyfoeth bioamrywiaeth sydd wedi ffynnu yn sgil rheolaeth gofalus.

Mae 2010 yn nodi 10fed pen-blwydd "Cynllun Gwarchod y Llethrâu Arfordirol" gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. Wedi cychwyn ar raddfa fechan, mae'r Awdurdod erbyn hyn ynghlwm wrth reoli cadwraeth ar 170 o safleoedd, yn ymestyn dros tua 2000 hectar. Mae'r cynfinoedd yn cynnwys tir glas a rhosdir arfordirol; twyni tywod; prysglwyni, tir glas corsiog a gweirgloeddiau a choetiroedd sy'n cynnwys nifer fawr o rywogaethau. Mae rhagleni cadwraeth rhywogaethau allweddol hefyd wedi eu darparu ar gyfer y fran goesgoch, yr ehedydd, brith y gors, yr ystlum, y cudyll coch, y dylluan wen a'r pathew.

## Biodiversity

The protected areas of Wales are able to boast rich biodiversity which is achieved through considered management.

2010 marks the 10th anniversary of the Pembrokeshire Coast National Park Authority's acclaimed "Conserving the Coastal Slopes Scheme". From modest beginnings the Authority is now involved in the conservation management of 170 sites, covering approximately 2000 hectares. Habitats include coastal grasslands and heaths; sand dunes; scrub; marshy grasslands; species-rich meadows and woodlands. Key species conservation programmes also exist for chough, skylarks, marsh fritillary butterfly, bats, kestrel, barn owl and dormouse.



Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro  
Pembrokeshire Coast  
National Park

mynd drot drot





Porth-mawr - Whitesands Bay  
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro  
Pembrokeshire Coast National Park



Rhieni  
Young Mothers

Dinbych-y-Pysgod  
Tenby

Grŵp Cymdeithasol Llanion  
Llanion Social Group



Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro  
Pembrokeshire Coast  
National Park



## Cynhwysiad Cymdeithasol

Dylai pawb - waeth beth yw eu cefndir cymdeithasol, ffisegol neu economaidd - gael mynediad i ardaloedd a warchodir a chyfle i'w mwynhau.

Er mwyn gwneud y Parc Cenedlaethol yn fwy hygrych i grwpiau sydd yn gymdeithasol amddifadus, dros y ddwy flynedd diwethaf mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro wedi darparu dros 120 o sesiynau ar gyfer rhagor na 1,300 o breswylwyr lleol ac ymwelwyr. Waeth os mai tywys pobl gyda nam ar eu golwg ar daith drwy'r coedlannau neu weithio gyda phobl ifanc i gwblhau prosiect cadwraeth, mae'r canlyniad yr un fath - cynyddu dealltwriaeth o gefn gwlad a'r modd y caiff ei reoli. Mae hyn o fantais i'r rhai sy'n cymryd rhan ac hefyd i'r Parc.

## Social Inclusion

Everyone should be able to access and enjoy their protected areas irrespective of their social, physical or economic background.

To help make the National Park more accessible to socially disadvantaged groups, the Pembrokeshire Coast National Park Authority has provided over 120 sessions to more than 1,300 local residents and visitors in the past two years. Whether it's taking visually impaired people on a woodland walk or working with young people to complete a conservation project, the effect is the same – an increased understanding of the countryside and how it works. This benefits participants and the Park itself.



Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro  
Pembrokeshire Coast  
National Park

r i d e   f u r t h e r

y f o r y   b y d d   h e d d i w   y n   d d o e

Pont Bigsweir - Bigsweir Bridge  
AHNE Dyffryn Gwy - Wye Valley AONB

t a s t e   r i c h e r



Bannau Brycheiniog  
Brecon Beacons



Arfordir Penfro  
Pembrokeshire



Eryri  
Snowdonia



Ynys Môn  
Anglesey



Gwyr  
Gower



Llŷn  
Llŷn



## Parciau Cenedlaethol Cymru National Parks Wales

### Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Brecon Beacons National Park Authority

Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys LD3 7HP

Ffôn/Telephone: 01874 624 437 e-bost/e-mail: [enquiries@breconbeacons.org](mailto:enquiries@breconbeacons.org) [www.breconbeacons.org](http://www.breconbeacons.org)

### Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Pembrokeshire Coast National Park Authority

Llanion Park, Pembroke Dock, PEMBROKESHIRE SA72 6DY

Ffôn/Telephone: 0845 345 7275 e-bost/e-mail: [info@pembrokeshirecoast.org.uk](mailto:info@pembrokeshirecoast.org.uk) [www.pembrokeshirecoast.org.uk](http://www.pembrokeshirecoast.org.uk)

### Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri Snowdonia National Park Authority

National Park Office, Penrhyneddraeth, GWYNEDD LL48 6LF

Ffôn/Telephone: 01766 770 274 e-bost/e-mail: [parc@snowdonia-npa.gov.uk](mailto:parc@snowdonia-npa.gov.uk) [www.snowdonia-npa.gov.uk](http://www.snowdonia-npa.gov.uk)

## Ardaloedd o Harddwch Naturoiol Eithriadol Areas of Outstanding Natural Beauty

### AHNE Bryniau Clwyd Clwydian Range AONB

AONB Management Service, Loggerheads Country Park, Nr Mold, DENBIGHSHIRE CH7 5LH

Ffôn/Telephone: 01352 810 614 e-bost/e-mail: [clwydianrangeaonb@denbighshire.gov.uk](mailto:clwydianrangeaonb@denbighshire.gov.uk) [www.clwydianrangeaonb.org.uk](http://www.clwydianrangeaonb.org.uk)

### AHNE Ynys Môn Anglesey AONB

Corporate Director of Planning and Environment, Council Offices, Llangefni, ANGLESEY LL77 7TW

Ffôn/Telephone: 01248 752 429 e-bost/e-mail: [aonb@anglesey.gov.uk](mailto:aonb@anglesey.gov.uk) [www.anglesey.gov.uk/aonb](http://www.anglesey.gov.uk/aonb)

### AHNE Gwyr Gower AONB

Environment Department, Civic Centre, Oystermouth Road, SWANSEA SA1 3SN

Ffôn/Telephone: 01792 635 094 e-bost/e-mail: [goweraonb@swansea.gov.uk](mailto:goweraonb@swansea.gov.uk) [www.swansea.gov.uk/aonb](http://www.swansea.gov.uk/aonb)

### AHNE Llŷn Llŷn AONB

Uned AHNE Llŷn - Llŷn AONB Unit, Adran Rheoleiddio, Gwasanaeth Amgylcheddol,

Swyddfeidd Cyngor Gwynedd, Ffordd y Cob, Pwlheli, GWYNEDD LL53 5AA

Ffôn/Telephone: 01758 704176 / 01758 704155 e-bost/e-mail: [post@ahne-llyn-aonb.org](mailto:post@ahne-llyn-aonb.org) [www.ahne-llyn-aonb.org](http://www.ahne-llyn-aonb.org)

### AHNE Dyffryn Gwy Wye Valley AONB

Hadnock Road, Monmouth, MONMOUTHSHIRE NP25 3NG

Ffôn/Telephone: 01600 713 977 e-bost/e-mail: [office@wyevallyeaonb.co.uk](mailto:office@wyevallyeaonb.co.uk) [www.wyevallyeaonb.co.uk](http://www.wyevallyeaonb.co.uk)



Bryniau Clwyd  
Clwydian Range

## Credyd Credits

### Fotograffiaeth Photography

© Crown copyright (2010) Visit Wales

APC Bannau Brycheiniog Brecon Beacons NPA  
Barn Owl © Steve Round

APC Arfordir Penfro Pembrokeshire NPA  
Whitesands Bay and Colby Woodland Gardens  
© Eric Lees  
Barn Owl © Steve Round  
Welsh Mountain Ponies, Pyramid Orchids and  
Grey Seal Pup © Mike Alexander

APC Eryri Snowdonia NPA  
Mountaineer © Dave Newbold

AHNE Bryniau Clwyd Clwydian Range AONB

AHNE Ynys Môn Anglesey AONB

AHNE Gwyr Gower AONB

AHNE Llŷn Llŷn AONB  
Trwyn Trefor © Greta Hughes

AHNE Dyffryn Gwy Wye AONB  
Tintern Abbey and Bigsweir Bridge © Linda Wright

Chough © Steve Round  
Puffins © Peter Norman

Dylunio Design  
[www.stuartlloyd.com](http://www.stuartlloyd.com)

Argraffu Print  
[www.hswprint.co.uk](http://www.hswprint.co.uk)



ARDALOEDD O  
HARDDWCH NATURIOL  
EITHRIADOL CYMREIG  
WELSH AREAS OF  
OUTSTANDING  
NATURAL BEAUTY

Cymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru  
126 Stryd Bute, Caerdydd CF10 5LE  
Ffôn: 029 2049 9966 Ebost: [wanpa@anpa.gov.uk](mailto:wanpa@anpa.gov.uk)  
[www.parciaucenedlaetholcymru.gov.uk](http://www.parciaucenedlaetholcymru.gov.uk)

Welsh Association of National Park Authorities  
126 Bute Street, Cardiff CF10 5LE  
Tel: 029 2049 9966 Email: [wanpa@anpa.gov.uk](mailto:wanpa@anpa.gov.uk)  
[www.nationalparkswales.gov.uk](http://www.nationalparkswales.gov.uk)

PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU  
Parciau goetlloedd  
NATIONAL PARKS WALES  
Britain's breathing spaces